# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.07.23 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol**: David Griffiths (DG - Cadeirydd), Geraint Edwards (GE – Is-Gadeirydd), Huw Davies (HD), Nicola Roberts (NR), Jenny Warne (JW), Ian Williams (IW), Keith Carroll (KC) Geraint Micah (MC) Jane Lawrence (JL) Louise Hughes (LH – Cynghorydd Sirol), and Jane Jenkins (JJ - Clerc).

1. **Ymddiheuriadau**: **Dim**

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2.1 Datgan Diddordeb: Dim**

## Presenoldeb Aelodau'r Cyhoedd: Ian a Sally Manning (IM) a (SM)

Gwahoddwyd IM a SM i fynychu'r cyfarfod ynghylch pryderon ynglyn a chais cynllunio gan Faes Carafanau Sunbeach. Dyma grynodeb o'r pwyntiau a godwyd ganddynt:

• Mae pryderon a godwyd yn flaenorol yn ystod ymgynghoriadau a gychwynnodd yn 2022 wedi'u hanwybyddu.
• "Ymgynghoriad cyn-ymgeisiol" wedi awgrymu 32 o unedau newydd, ond cais wedi ei wneud am 39 o unedau.
• Bydd mynediad i'w heiddo ac oddi yno i'r A493 yn llawer anoddach a bydd cynnydd sylweddol mewn symudiadau traffig yn gyffredinol.
• Bydd prif oleuadau ceir, polion fflagiau wedi'u goleuo a llifoleuadau'r safle yn amharu ar eu preifatrwydd os bydd y fynedfa newydd i'r safle yn mynd yn ei blaen, a byddai'n creu niwsans a fyddai'n effeithio ar fwynhad eu heiddo.
• Mae lleoliad y fynedfa newydd i'r safle dipyn yn fwy gan gynnwys mynediad ar gyfer llwythi annormal h.y. dod a charafanau newydd i mewn ac ati. Yn ogystal, byddai'r fynedfa newydd yn gweld lleiafswm o 1000-2000 o symudiadau trafnidiaeth y dydd yn seiliedig ar nifer y carafanau, (gwesteion), porthdai, danfoniadau, cynnal a chadw, staff ac ati.
• Nid oes asesiad priffyrdd wedi ei wneud hyd yma a dim mewnbwn gan Gyngor Gwynedd. Ni fydd unrhyw ddata traffig ar gael tan ar ôl y cyfnod ymgynghori.
• Pryderon am ddifrod i'r eco-system a bywyd gwyllt - coed/sgrin yn cael eu tynnu fel rhan o'r prosiect hwn.
• Nid aed i'r afael â sut y caiff adeiladu ei reoli a sut yr ymdrinnir â gwaredu malurion.
• Mae mater y llwybr cyhoeddus, sydd wedi cael ei gau gan berchnogion Sunbeach, angen cael ei ddatrys - i'w ailagor.
• Nid oes unrhyw hysbysiadau statudol wedi'u harddangos (gofyniad o 21 diwrnod). Mae IM a SM wedi cael eu hysbysu y bydd y rhain yn cael eu gosod ddydd Gwener 14 Gorffennaf sy'n ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion tan 4 Awst.
• Pryderon cyffredinol all effeithio ar y pentref yn gyffredinol yw bod coed/coridorau gwyrdd yn cael eu symud, mae'n debygol y bydd cryn dipyn o fwd a malurion ar y ffordd, cynnydd mewn traffig drwy'r pentref gyda goryrru eisoes yn broblem, a mynediad i gerddwyr i'r pentref yn anniogel ar ffordd gul heb unrhyw balmant. Cadarnhawyd bod nifer o drigolion Sunbeach wedi codi pryderon am lifogydd, mater sydd eisoes ar y safle.

**Sylwadau Aelodau'r Cyngor Cymuned**:
Cododd GE y cwestiwn "A fyddai problem pe bai'r fynedfa'n cael ei symud". Roedd Savills wedi rhoi gwybod yn flaenorol nad oeddent yn amharod i ystyried hyn. Dywedodd IM a SM "na" os oedd y fynedfa newydd yn cael ei gosod fwy tuag at y pentref.

Cadarnhaodd IW ei fod wedi sylwi nad oedd y cynlluniau yn wahanol i'r ymgynghoriad cychwynnol ac nad oeddent wedi ystyried y sylwadau. Cadarnhaodd KC fod Savills yn wreiddiol yn barod i symud y fynedfa pan drafodwyd yn ystod cyfarfod Zoom yn 2022. Ailadroddodd IW nad oeddent wedi cymryd sylw o ddim o'r pwyntiau a roddwyd iddynt.

Dywedodd HD mai'r cwestiwn yn syml oedd a oedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig ai peidio. A fyddai estyniad o'r safle o unrhyw fudd i'r pentref? Awgrymodd HD y dylid cynnal pleidlais ynglyn a'r sefyllfa.
Dywedodd HD ei fod yn erbyn y cynnig ac yr hoffai iddo gael ei wrthod yn llwyr.

Cadarnhaodd IW ei fod hefyd yn erbyn y cynnig a chyfeiriodd at blannu coed/sgrinio a fyddai'n cael ei tynnu ona. Roedd hwn wedi bod yn rhan o gais cynllunio hŷn yn ymwneud â'r Caffi/Clwb ac roedd y cais wedi'i rifo NP5-69-56B.
Er bod dogfennau'n nodi y byddai llystyfiant yn cael ei ailblannu, byddai'n cymryd blynyddoedd i aildyfu a sgrinio'r safle fel y mae ar hyn o bryd.

Cododd HD fod y mater o ddymchwel y byngalo yn ystod argyfwng tai yn foesol anghywir. Byddai effaith negyddol ar y system eco, effaith negyddol ar y golygfeydd o Lwybr Arfordir Cymru ac o'r Rheilffordd.

Cododd IW y mater bod y map dan E6 yn anghywir – mae'r ffin i ran ddeheuol y safle yn cynnwys tir nad yw'n rhan o berchnogaeth Allen ac sy'n perthyn mewn gwirionedd i Gors Wen House.

Dywedodd IW nad oedd wedi clywed un gair o gefnogaeth i'r cynnig gan y cyhoedd.

Dywedodd LH pe byddai pleidlais unfrydol o wrthwynebiad yna byddai'n rhaid rhoi'r mater yn ôl gerbron y pwyllgor.

Gofynnodd DG i bob cynghorydd gymryd pleidlais – **PLEIDLAIS UNFRYDOL O WRTHWYNEBU.**

Penderfyniad - JJ i ysgrifennu llythyr i wrthwynebu'r cais, yn canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol. Llythyr i'w anfon at Gynghorwyr fel drafft cyn ei anfon.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (Mehefin) yn gywir.
   **Cynnig:** KC **Eiliwyd:** GE **Arwyddywd:** David Griffiths.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol: Diweddariad y Clerc**
   - Cafwyd diweddariad gan JJ o'r llythyr a dderbyniwyd gan Cyngor Gwynedd. Gofynnodd HD am i gŵyn swyddogol gael ei wneud i Ombwdsmon y Cyngor, gan ei bod wedi cymryd blynyddoedd i Gyngor Gwynedd dderbyn cyfrifoldeb am y wal derfyn rhwng Llwyngwril a Friog, pan fyddai modd fod wedi datrys y mater erbyn hyn. 'Roedd yna gwestiwn o esgeulustod, yn ogystal â thorri amodau diogelwch ac aflonyddwch diangen.
     **Cynig:** HD **Eilio:** IW
   - Dywedodd HD fod arwydd yn atgoffa pobl o "ddiogelwch y beiciwr" wedi diflannu ers i'r goleuadau traffig gael eu cyfnewid, a gofynnodd am lythyr i gael ei anfon i Gyngor Gwynedd, iddynt roi sylw i'r mater.
   - Rhoddodd JJ ddiweddariad gan Adran Cwynion Network Rail.
   - Cadarnhaodd IW fod atgyweiriadau wedi'u gwneud i giat y rheilffordd ger croesfan y Crynwyr.
   - Rhoddodd JJ ddiweddariad ar faterion goryrru yn Rhoslefain a Llwyngwril. Mae disgwyl i leiniau ffordd gael eu gosod yn Rhoslefain dros yr wythnosau nesaf, er mwyn gallu monitro'r mater o goryrru.
   - **Rheolau Sefydlog** – rhai diwygiadau angen ei gwneud – JJ i'w cywiro.
     **Rheoliadau Ariannol** – cymeradwywyd.
     **Datganiad Preifatrwydd** – cymeradwywyd.
     **Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd y Cyngor yn ymwneud â ffrydio -** cymeradwywyd ond i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
     **Cod Ymddygiad** – cymeradwywyd ac i'w argraffu ar gyfer pob Cynghorydd.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**
   **a)** Llythyr gan Futorform ynglyn a meinciau plastig wedi'i hailgylchu - dim i'w wneud ar hyn o bryd ond cadw'r llythyr i'w ddefnyddio yn y dyfodol.
   **b)** Llythyr oddi wrth Mike Senior wedi'i ddarllen gan bawb – dim sylwadau pellach.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **NP5/69/56M – Sunbeach, Llwyngwril –** wedi ei drafod ar ddechrau'r cyfarfod.

7. **Adroddiad Ariannol:**
   **a) Adroddiad Ariannol 22/05/23 i 21/06/23:** Cytunwyd fel gwir gyfrif a chymeradwywyd.
   Esboniodd JJ y taliad arian parod o £85 i mewn i'r cyfrif, ond nid oedd y siec o £40 y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar y gyfriflen. JJ yn ansicr pam ddim, gan nad oedd modd checio ar-lein ar hyn o bryd.
   **Cynnig**: IW **Eilio:** HD **Arwyddwyd:** DG

**b) Taliadau:** Pum siec i'w harwyddo. Cyflog a chosta'r Clerc, Treth incwm HMRC, tal cyfieithu (Glenda Edwards), Cyngor Gwynedd (Toiledau), a ROSPA (Play Safety).

**c) Bancio Ar-lein Nat West**: dywedodd JJ nad oedd yn gallu cael mynediad i'r bancio ar-lein o hyd, a cadarnhaodd IW ei and oedd wedi llofnodi'r mandad a bod rhaid iddo wneud hyn.

**d) Llythyr wedi ei dderbyn gan Banc Nat West**: taliadau banc i gael ei gosod ar y cyfrif o 01.09.23
Trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**e) Gwariant Ariannol**: i'w roi ar yr Agenda mis nesaf.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
   - Adroddodd GE nad oedd gan Y Ganolfan Ysgrifennydd/es ar hyn o bryd.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**
   - Dywedodd LH fod ei chyfnod atal dros dro wedi dod i ben, ac ei bod wedi bod ar gwrs yn ymwneud â materion ail gartrefi. Adroddodd hefyd ei bod yn cael pythefnos o wyliau – hefo'r grwp Cadets lleol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   - **Adroddiad ROSPA**: adroddiad wedi ei dderbyn diwrnod cyn y cyfarfod, felly pawb wedi'i ddarllen – dim materion brys ac uniongyrchol. Rhoi ar yr Agenda mis nesaf i drafod ymhellach.
   - **Taith Gerdded Gylchol o amgylch Llwyngwril**: Dywedodd GM fod y daith bellach wedi'i chwblhau a chynhyrchodd fapiau. Gofynodd GM i'r mapiau gael eu gosod ar yr hysbysfyrddau., a gobeithir y byddai copïau printiedig cywir i ddilyn.
   - **Pibell garthffosiaeth - Afon Gwril:** Adroddodd GE ei fod wedi sylwi yn ystod y Ras Hwyaid flynyddol, bod y twll o dan y bibell garthffosiaeth dros yr afon wedi mynd yn fwy a bod y concrit i'r ochr hefyd wedi dechrau cwympo. Gofynnodd am lythyr i Dŵr Cymru yn gofyn iddynt edrych ar y difrod, ac y byddai'n barod i'w cyfarfod i ddangos lle'r oedd y broblem. Y sefyllfa waethaf os caiff ei gadael yw ei bod yn byrstio ac yn rhyddhau carthffosiaeth i'r afon a'r môr.
   - **Toiledau Cyhoeddus yn Llwyngwril**: Adroddodd GE ei fod wedi derbyn galwad ffôn gan aelod o'r gymuned, yn cwyno am gyflwr y toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril. Gadawyd ysgarthion yn nrws y merched ac roedd y toiledau yn aml heb sebon na phapur toiled. Mae GE wedi adrodd y mater i Cyngor Gwynedd ac mae'n ymddangos fod y broblem wedi cael sylw. Fodd bynnag, gofynnwyd i JJ ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn roi gwybod iddynt am y cŵyn ac gofyn am fanylion ynghylch amserlenni glanhau, ailgyflenwi ac a oedd y toiledau wedi'u cloi dros nos. Dylid gwneud yn glir nad oedd y Cyngor Cymuned yn hapus am y sefyllf yma - pan oeddent yn cyfrannu swm hael tuag at gynnal a chadw'r toiledau cyhoeddus i'w cadw ar agor i'r cyhoedd.
   - **Cynnal a chadw y fynwent:** Cododd KC y mater nad oedd y fynwent wedi'i chynnal a'i chadw a'i bod wedi gordyfu. Dywedodd GM fod hyn bellach wedi'i ddatrys.
   - **Ffordd ddi-ddosbarth yn Sunbeach**: Dywedodd DG fod aelod o'r cyhoedd wedi codi mater y ffordd ddi-ddosbarth yn Sunbeach, a oedd yn lwybr cyhoeddus, ond fod Allen's Sunbeach wedi'i chau i'r cyhoedd ddefnyddio. Aethpwyd i'r afael â hyn yn flaenorol a gofynnwyd yn awr i'r Cyngor Cymuned ailagor y mater. Darparodd GE ffeil i JJ gyda gohebiaeth flaenorol yn ymwneud â'r mater hwn er mwyn gallu anfon llythyr pellach at Gyngor Gwynedd (Adrian). Dywedodd GM y byddai'n cysylltu â Chymdeithas Green Lanes ynghylch y mater hwn i weld a allent gynorthwyo.
   - **Sedd Wag ar y Cynogor Cymuned:** Dywedodd JJ fod 2 ymgeisydd wedi gwneud cais am sedd wag ar y Cyngor. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf, trwy bleidlais. Yn y cyfamser, JJ i gysylltu â'r ddau ymgeisydd a'u gwneud yn ymwybodol pryd y byddai ei cais yn cael ei drafod.
   - **Swyddog Diogelu Data**: Adroddodd DG fod y Cyngor Cymuned angen Swyddog Diogelu Data, cytunodd JW i gymryd y swydd yma.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 13.09.23 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………. Dyddiad ………………………………**